# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.15 y.b., DYDD LLUN, 30AIN MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 20 Mehefin 2025)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Edgar Wyn Owen |
| Gwynfor Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Huw Rowlands | Elfed Williams |
| Gwilym Evans | Meryl Roberts |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Anwen J. Davies | John Brynmor Hughes |
| Hefin Underwood | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025 / 26

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyer 2025 / 26

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Fawrth 2025 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 15

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 21-03-25

b) 07-02-25

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**10fed o Fawrth 2025**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Huw Rowlands, Arwyn Herald Roberts a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Andrew Parry (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach)**,** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Anwen Davies, Cyng. Alan Jones Evans a'r Cyng. Angela Russell

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Angela Russell oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar.

Dymunwyd y gorau a diolchwyd i'r Cyng. Linda Ann Jones, cyn Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu am ei chefnogaeth i'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn ei chyfnod fel Aelod Plaid Cymru.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Trefniadau i Strwythur Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd yn nodi toriadau i'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd o'r 1af o Ebrill 2025 a hynny mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet yn 2024, i arbed £100k. Amlygwyd bod y drefn bresennol yn cynnwys tri rheolwr yn gyfrifol am dri gwasanaeth o fewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, ond bod y toriad, yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda staff ar sut i gyflawni toriadau a chadw arbenigedd o fewn y Gwasanaeth, yn golygu dileu swyddi gwag o'r strwythur ac ail strwythuro i ddau wasanaeth gyda dau reolwr ac un arweinydd tîm. Bydd y gwasanaeth Safonau Masnach a Thrwyddedu a'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2025 gydag Andrew Parry, rheolwr presennol Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach) yn cael ei benodi yn rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu. Adroddwyd y byddai'r Rheolwr Trwyddedu presennol, Gwenan Mai Roberts, oherwydd ei phrofiad a'i harbenigedd yn y maes yn parhau mewn swydd o fentora ac arwain y tîm.

Croesawyd Andrew Parry i'r cyfarfod a llongyfarchwyd ef ar ei benodiad. Diolchwyd i Gwenan Mai Roberts am barhau gyda'r Gwasanaeth - y Pwyllgor a'r Isbwyllgorau Trwyddedu yn elwa o'i phrofiad a'i harbenigedd.

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd 11eg Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 17eg o Ragfyr 2024, 2il o Ragfyr 2024 a Tachwedd 13eg 2024 fel rhai cywir.

**6. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD**

- **Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni / Hurio Preifat Cyfunol**
- **Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni / Hurio Preifat**
- **Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat**
- **Polisi Meini Prawf Addasrwydd Gyrwyr a Gweithredwyr**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Amgylchedd yn manylu ar wybodaeth gefndirol polisïau cyfredol Gwynedd ynghyd a chyhoeddiadau gan Llywodraeth Cymru mewn ymateb i geisio rheoli a chysoni'r diwydiant tacsi yn unol â'r Safonau Tacsi Cenedlaethol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Trwyddedu, yn Medi 2015 wedi awdurdodi Pennaeth yr Amgylchedd i ddechrau adolygu'r polisïau gan gynnig polisi tacsi unedig i Wynedd yn hytrach na thair dogfen bolisi ar wahân. Ystyriwyd y byddai cyflwyno polisi unedig yn sicrhau gwasanaeth teg a chyson ac yn cwrdd ag anghenion y diwydiant a'r defnyddwyr.

Amlygwyd, yng nghyd-destun Safonau Cenedlaethol, bod amodau trwyddedu gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr tacsi yng Ngwynedd eisoes yn cyd-fynd gyda rhan helaeth o'r disgwyliadau sydd yn cael eu cynnwys yn y Safonau, ond bod bwriad ychwanegu rhai mesurau diogelu i'r broses ceisio am drwydded. Bydd mesurau megis sicrhau bod ymgeisydd am drwydded yn derbyn ymchwiliad meddygol i safon Grŵp 2 DVLA, gyrwyr yn cwblhau Hyfforddiant Diogelu Plant fel rhan o'r broses ymgeisio am drwydded a bod gwiriad ar system Intel troseddol cenedlaethol yn cael ei wneud ar gyfer pob cais am drwydded gyrrwr o'r newydd, yn cael eu cynnwys yn swyddogol yn y Polisi Unedig newydd.

Ategwyd y byddai'r Pwyllgor, ymhen y 12 mis nesaf, yn cael cyfle i roi barn ar y polisi drafft unedig, cyn y bydd ymgynghoriad cyhoeddus statudol yn cael ei gynnal.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau:

- Bod y polisïau wir angen eu diweddaru
- Bod y newidiadau i'w croesawu ac yn cyfarch safonau cenedlaethol

Mewn ymateb i bryder bod gyrwyr o du allan i Wynedd gyda'r hawl i weithio yng Ngwynedd, nodwyd bod trafodaeth genedlaethol wedi ei chynnal ar y pwnc gydag

adolygiad gan Lywodraeth Cymru i geisio sicrhau rheolaeth dros ffiniau Cymru a Lloegr (Uber yn un enghraifft o hyn). Er hynny, nid oedd y drefn bresennol yn caniatáu gwrthod gweithio trawsffiniol cyn belled a bod trefniant ymlaen llaw wedi ei wneud. Ategwyd mai'r gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ail afael yn yr agenda ac yn ceisio rheolaeth drawsffiniol i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol bod angen cydweithio gyda siroedd ffiniol i sicrhau bod gyrwyr tu allan i Wynedd yn cydymffurfio gyda pholisïau diogelwch Gwynedd, nodwyd bod Gwynedd yn rhan o gyfundrefn rhannu gwybodaeth sy'n gweithredu gwiriadau yn genedlaethol. Mewn ardaloedd gwledig, mynegwyd bod cytundebau cludiant ysgolion yn ddibynnol ar weithredwyr o siroedd eraill, a bod rheolaeth dda o'r sefyllfa i sicrhau bod gyrwyr a cherbydau yn cyd-fynd â'r gofynion perthnasol. Pwysleisiwyd yr angen i gyfeirio unrhyw amheuon o addasrwydd cerbydau a / neu yrwyr at yr Uned Trwyddedu a mynegwyd y byddai'r gwaith o alinio polisïau ac amodau gyda siroedd eraill yn cyfrannu at wasanaeth cyson a diogel.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â threfniadau cludo cleifion gan y Gwasanaeth Iechyd a bod y trefniant hwnnw yn cael ei wneud drwy'r gwasanaeth / ysbyty yn hytrach na dymuniadau'r claf, nodwyd bod y trefniant yma, fel arfer yn cael ei wneud drwy ddefnydd gwasanaeth cludiant cymunedol sy'n cael ei reoli gan y Comisiynydd Traffig. Nodwyd bod yr un rhagolygon megis prawf meddygol, cofnod a gwiriad DBS, a gwiriadau mecanyddol i'r car yn cael eu gweithredu yn yr un modd a gofynion Uned Trwyddedu Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i sylw am yrwyr tacsi yn defnyddio eu cerbydau i gludo nwyddau, nodwyd nad oedd rheolaeth dros ddefnyddio'r cerbyd i'r pwrpas yma, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i sicrhau bod y gyrwyr wedi derbyn hyfforddiant diogelwch o ystyried y nifer ymweliadau / danfoniadau maent yn ei wneud a'r sefyllfaoedd gwahanol y byddant yn debygol o ddod ar eu traws.

**PENDERFYNWYD:**

- Derbyn yr adroddiad
- Croesawu cysoni gwasanaeth ar draws y Sir i gwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr gan gadw ystyriaethau diogelwch yn sylfaen greiddiol i gyfeiriad y polisi
- Cymeradwyo'r angen i adolygu'r polisi yn unol â'r egwyddorion a gytunwyd yn 2017, ac er mwyn alinio gyda Safonau Cenedlaethol

Cymerodd y Cyng. Elfed Williams y cyfle i ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor ac i'r Swyddogion am eu cefnogaeth tra'n Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:40

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 21-03-25**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Annwen Hughes ac Edgar Owen

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Eitem 5: Ymgeisydd Mr A
Eitem 6: Ymgeisydd Mr B

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb a'i amgylchiadau personol. Nododd fod ganddo drwydded gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat ers 2008 a phan fu iddo dderbyn y drwydded cafodd gyngor i adrodd ar unrhwy achosion o yfed a gyrru a/ neu ymddygiad troseddol i'r Uned Trwyddedu, ond dim sôn am adrodd ar bwyntiau gyrru. Ategodd mai diweddar oedd y pwyntiau a hynny oherwydd newidiadau mewn cyfyngiadau cyflymder yn yr ardaloedd roedd yn teithio gyda'i waith. Derbyniodd ddifrfioldeb y sefyllfa, petai yn colli ei drwydded y byddai yn colli ei waith.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd ynghyd a thystiolaeth a gwybodaeth ysgrifenedig

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn mis Rhagfyr 2022 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am dorri cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, yn yr un lleoliad, derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am dorri cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

Yn mis Hydref 2024 derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb am dorri cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda paragraff 13.1 yn diffinio 'man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwy paragraff 13.3 sy'n datgan y "Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at sylw Is-bwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded

**CASGLIADAU**

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod gan yr ymgeisydd ddwy drosedd o oryrru o fewn 2 ddiwrnod i'w gilydd ac ymhellach drydedd drosedd a ddigwyddodd yn 2024. Cafwyd eglurhad o'r lleoliadau ar gyfer y troseddau; roedd y ddau gyntaf wedi digwydd yng nghyffiniau Fflint ac o fewn ychydig ddyddiau oherwydd bod yr ymgeisydd yn credu mai 40 mya oedd y terfyn cyflymder a'i fod yn gwneud rhwng 30 a 40. Yng nghyd-destun y trydydd trosedd eglurwyd ei fod wedi digwydd mewn ardal cyfyngiad cyflymder o 20mya ac roedd yn gwneud oddeutu 26mya. Ystyriwyd y sylwadau gonest a wnaeth yr ymgeisydd gan dderbyn ei fod yn llawn deall difrifoldeb y sefyllfa gan gydnabod y byddai collfarn arall yn golygu colli trwydded tacsi a thrwydded gyrru. Nododd yr is-bwyllgor hefyd fod yr ymgeisydd wedi dal trwydded tacsi ers 2008 ac nad oedd unrhyw broblemau blaenorol. Amlygwyd pwysigrwydd gohebu unrhyw ddigwyddiadau gyda'r Uned Trwyddedu.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatau y cais

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad

**6. CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais gan nad oedd nad oedd tair blynedd wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad gyrru.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb a'i amgylchiadau personol. Nododd bod cyfnod covid wedi bod yn gyfnod anodd iddo a'r digwyddiad yn parhau i gael effaith arno. Ategodd ei fod wedi derbyn

hysbysiad yn nodi lleihad yn ei oriau gwaith pob dydd ac o ganlyniad, roedd rhaid iddo ystyried incwm ychwanegol i gefnogi ei deulu.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Datganiad DBS
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Datganiad Tyst
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd ynghyd a thystiolaeth a gwybodaeth ysgrifenedig

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r mater canlynol

**Cefndir**

Yn Chwefror 2021, derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 am yrru o dan ddylanwad cyffuriau. Fe’i gwaharddwyd rhag gyrru am 12 mis yn weithredol o’r 3ydd o Awst 2021.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru / dan ddylanwad cyffuriau yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o’r fath am 3 blynedd o leiaf.

**CASGLIADAU**

Bu i’r Is-bwyllgor bwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol gan ystyried sylwadau'r ymgeisydd yn ofalus a derbyn ei ddatganiad gonest ynglŷn â sefyllfa o gwmpas y gollfarn a’r ffaith bod cyfnod covid wedi bod yn amser anodd iddo. Bu i'r is-bwyllgor ystyried mai ymhen pump mis byddai’r ymgeisydd wedi gallu cyflwyno cais a fyddai wedi cael ei ganiatáu gan swyddogion yn unol â'r polisi. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd mai cais am drwydded blwyddyn oedd yma ac os byddai’n cyflwyno cais i adnewyddu, byddai, oherwydd y manylion ar y DBS yn cael ei alw gerbron yr is-bwyllgor unwaith eto.

Ar ôl pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, penderfynwyd drwy fwyafrif, bod y ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio’r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben 11 :15

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 07-02-25

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** **Elfed Williams (Cadeirydd), Gwynfor Owen a Huw Rowlands**

**Swyddogion:** **Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)**

**Eraill a wahoddwyd:**

**Ymgeisydd Mr A**

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sydd yn gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais a hynny oherwydd nad oedd ymddygiad yr ymgeisydd mewn digwyddiad diweddar yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig gan yrrwr tacsi.

Dangoswyd fideo TCC oedd yn tystiolaethu'r digwyddiad ynghyd a hanes o aildroseddu mewn perthynas â chollfarnau trefn gyhoeddus 2010, 2018 a 2024.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chais adnewyddu trwydded, nodwyd bod trwydded gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat yn gyfredol am dair blynedd - dyma'r cyfnod safonol. Amlygwyd bod trwydded yr ymgeisydd wedi dod i ben yn Rhagfyr 2024 ac ni fu iddo ddatgelu'r cyhuddiadau yn ei erbyn ar ei ffurflen gais - mae dyletswydd ar bob ymgeisydd i roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyhuddiadau yn eu herbyn. Ategwyd, yn achlysurol, bod yr Heddlu yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ond y tro hwn aelod o'r cyhoedd oedd wedi cwyno i'r Heddlu cyn dwyn achos swyddogol yn erbyn yr ymgeisydd. Wedi i'r ymgeisydd fod gerbron y Llys cafwyd y wybodaeth ganddo ynghyd a datganiad wedi ei arwyddo wrth aros am DBS.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y digwyddiad a'i amgylchiadau personol. Nododd nad oedd wedi cwblhau ei ffurflen gais yn llawn gan ei fod yn aros am ddyfarniad y cyhuddiad oedd yn ei erbyn. Yng nghyd-destun digwyddiad Rhagfyr 2024, roedd yn cyfaddef ei fod wedi ymateb i fygythiad y dioddefwr, ond roedd y dioddefwr wedi ei fygwth ef yn gyntaf. Amlygodd hefyd nad oedd yn adnabod y dioddefwr ac mi roedd wedi datgelu'r digwyddiad i'r Adran Drwyddedu, y bore canlynol. Ategodd ei fod yn gyrru bysiau ers dros 30 blynedd heb unrhyw gwynion a bod y swydd fel gyrrwr tacsi yn golygu cymaint iddo.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Datganiad DBS
- Datguddiad Collfarnau a Datganaid wedi ei arwyddo 21/11/24
- Tystysgrif Argyhoeddiad gan Llys Ynadon Caernarfon
- Sicrwydd Gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru
- Datganiad Tyst
- Adroddiad a Chofnodion Gwrandawiad yr ymgeisydd Tachwedd 2021
- Tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng - TCC
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd ynghyd a thystiolaeth a gwybodaeth ysgrifenedig

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn mis Rhagfyr 2024 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol a sarhaus oedd yn debygol o godi ofn, dychryn neu drallod yn groes i Ddeddf

Trefn Cyhoeddus 1986. Gorchmynnwyd iddo dalu iawndal o £50 gyda dirwy o £400. Ni fu i'r Heddlu gyflwyno tystiolaeth am y cyhuddiad o Ymosodiad drwy guro a gollyngwyd y cyhuddiad yma

Yn mis Tachwedd 2018 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol a sarhaus oedd yn debygol o godi ofn, dychryn neu drallod yn groes i Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986. Derbyniodd gosb o £100, ac £85 o gostau

Yn mis Hydref 2010 cafwyd yr ymgeisydd yn euog am ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol neu sarhaus, gyda'r bwriad o godi ofn neu bryfocio trais yn groes i Ddeddf Trefn Cyhoeddus 1986

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin a/neu ddifrod troseddol a /neu drosedd o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

**CASGLIADAU**

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y collfarnau'n ymwneud â throseddau o drais

Yn 2021, penderfyniad yr Is-bwyllgor oedd caniatáu cais yr ymgeisydd a hynny wedi iddynt ystyried ei dystiolaeth er bod y polisi yn nodi y dylid gwrthod cais os nad oedd cyfnod o 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf. Yn Rhagfyr 2024, gwelwyd unwaith eto bod llai na 3 blynedd ers y drosedd ddiweddaraf (Tachwedd 2021) ac felly, man cychwyn i'r ystyriaethau fyddai gwrthod y cais. Ystyriwyd hefyd patrwm o aildroseddu oedd yn cynnwys yr un math o ymddygiad gyda dwy drosedd o fewn y cyfnod o 10 mlynedd.

Bu i’r Is-bwyllgor hefyd ystyried yr amgylchiadau yn yr achos penodol yma gan dderbyn bod sylwadau’r ymgeisydd am y digwyddiadau dan sylw yn ddatganiad gonest o'r hyn a ddigwyddodd ar y Maes yng Nghaernarfon. Derbyniwyd hefyd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, bod y dioddefwr wedi dod draw at yr ymgeisydd wrth weld ei fod wedi parcio ar y Maes ac felly o’r hyn a welodd yr Is-bwyllgor o dystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng (TCC) ar y maes, y dioddefwr oedd wedi dechrau’r gwrthdaro ar y noson.

Er hynny, roedd yr ymgeisydd yn anghytuno â dehongliad eraill o'i ymddygiad mewn perthynas â'r ail ddigwyddiad, gyda’r dioddefwr yn hwyrach ymlaen ar yr un noson yn gwadu dyrnu'r dioddefwr drwy ffenestr car. Nid rôl yr is-bwyllgor yw dod i ganfyddiad ffeithiol os oedd y digwyddiad hwnnw yn gyfystyr â throsedd gan fod yr ymgeisydd wedi ei gyhuddo o ymosod trwy guro ac nid oedd yr Heddlu wedi cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r cyhuddiad hwnnw. Serch hynny, roedd tystiolaeth TCC yn dangos yn glir, beth amser ar ôl y digwyddiad cyntaf, bod yr ymgeisydd drwy stopio ei gar o flaen car y dioddefwr er mwyn ei orfodi i stopio, ei fod wedi dod allan o'r car a bygwth y dioddefwr. Daeth yr is-bwyllgor i’r casgliad, waeth beth oedd wedi digwydd rhwng yr ymgeisydd a’r dioddefwr bod yr ail ddigwyddiad yma wedi dechrau gan weithredoedd yr ymgeisydd a bod ei ymddygiad yn annerbyniol ac yn bell o gyrraedd safon ddisgwyliedig gan yrrwr trwyddedig.

Eglurwyd bod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu'r cyhoedd ac fel rhan o hynny rhaid asesu'r risg o ail droseddu. Yn wyneb y digwyddiad diweddaraf (collfarn Rhagfyr 2024), cytunodd yr Is-bwyllgor â'r Uned Drwyddedu bod yr ymgeisydd wedi derbyn collfarn arall am yr un math o drosedd a hynny yn brawf na fu unrhyw welliant yn ei ymddygiad ers gwrandawiad Tachwedd 2021. Amlygwyd bod y patrwm hwnnw yn un o ymddygiad ymosodol a bygythiol gyda thystiolaeth o ddigwyddiad pellach yn 2010. Nid oedd yr Is-bwyllgor felly yn hyderus na fyddai ymddygiad tebyg yn digwydd eto.

Bu i’r Is-bwyllgor hefyd ystyried darpariaethau Canllawiau Addasrwydd, sy'n nodi’r angen i ystyried cymeriad gyrrwr yn ei gyfanrwydd gan gynnwys agwedd a natur yr unigolyn dan sylw. Ategwyd bod y Canllawiau yn pwysleisio bod angen i yrwyr arddangos ymddygiad proffesiynol priodol bob amser. Yn yr achos yma, ystyriwyd perthnasedd paragraff 4.15 gan ei fod yn nodi bod troseddau neu ymddygiad annerbyniol sydd yn digwydd wrth yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat yn cael eu hystyried fel nodweddion o dramgwyddo.

Yn ychwanegol, roedd yr is-bwyllgor yn siomedig â chyhuddiadau’r ymgeisydd tuag at swyddogion yr awdurdod Trwyddedu. Eto, nid oedd hyn yn ymddygiad a ddisgwylid gan yrwyr trwyddedig.

Daeth yr is-bwyllgor i'r casgliad fod y collfarnau ynddynt eu hunain yn ddigon o reswm i wrthod y cais o dan Bolisi’r Cyngor, ond wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ni welwyd unrhyw reswm pam na ddylid dilyn darpariaethau'r Polisi yn yr achos yma. Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid gwrthod y cais ac nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i adnewyddu ei drwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio’r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 10 :00 a daeth i ben 11 :55